
citb Cymru Wales

GWELEDIGAETH 2020

# Cynllun Busnes 2018-21



CITB Y **DYFODOL**

# Mae’n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Busnes CITB, sef rhaglen ddiwygio uchelgeisiol y mae anghenion y diwydiant wrth ei gwraidd.



**Sarah Beale**
Prif Weithredwr

Mae’r targedau uchelgeisiol yn y cynllun hwn yn seiliedig ar adborth y diwydiant adeiladu a’r Llywodraeth.

Yn ystod proses consensws 2017, ac adolygiad ITB y Llywodraeth, nodwyd gofynion clir i ddiwygio a symleiddio CITB.

Gwrandawodd CITB ar y safbwyntiau hynny ac mae’n dda iawn gen i gadarnhau bod newidiadau eisoes ar droed.

Manylodd ein hagenda ddiwygio, a amlinellwyd yng nghyhoeddiad mis Tachwedd 2017, sef **Gweledigaeth 2020: CITB y Dyfodol**, ar y cynllun tair blynedd a wnaiff weld CITB yn gweithio mewn ffordd symlach.

Bydd **Gweledigaeth 2020** yn creu’r corff lefi a sgiliau sydd ei angen ar y diwydiant adeiladu. Byddwn yn targedu ein harbenigedd ac adnoddau’r diwydiant er mwyn gwneud llai o bethau yn well.

## Mae ein **cenhadaeth**, **gweledigaeth** a **chynllun**, yn dilyn consensws a’r adolygiad ITB yn glir.

### EIN CENHADAETH

Denu pobl a chefnogi datblygiad y bobl hynny er mwyn adeiladu Prydain well.

### EIN GWELEDIGAETH

Sicrhau bod gan y diwydiant adeiladu ym Mhrydain ymagwedd arloesol gydnabyddedig o’r radd flaenaf tuag at ddatblygu ei weithlu er mwyn sicrhau ansawdd yn yr amgylchedd adeiledig.

### ER MWYN CYFLAWNI EI WELEDIGAETH MAE ANGEN I CITB:

- Cefnogi’r gwaith o hyrwyddo’r diwydiant adeiladu fel sector deniadol i weithio ynddo (Gyrfaoedd).
- Sicrhau bod hyfforddiant ac asesiadau yn adlewyrchu gofynion y diwydiant (Safonau a Chymwysterau).
- Sicrhau bod cyflogwyr yn gallu cael hyfforddiant mewn modd amserol (Dysgu a Datblygu).
- Cynnig cynifer o gyfleoedd cyllid â phosibl i dalwyr y lefi.
- Datblygu sail dystiolaeth gref er mwyn pennu anghenion sgiliau a hyfforddiant y diwydiant.


Llun y clawr blaen drwy ganiatâd caredig ARUP

## Mae ein cynlluniau yn cynnwys:

- Gwella ein sail dystiolaeth sy'n cwmpasu'r diwydiant cyfan er mwyn dylanwadu ar anghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol, a'u diwallu
- Nodi ffynonellau cyllid er mwyn gwella hyfforddiant adeiladu a chadw i fyny â datblygiadau
- Gweithio gyda'r diwydiant er mwyn gwella safonau a chymwysterau gyda'r nod o greu cyflogeion sy'n barod i weithio
- Digideiddio ac awtomateiddio gwasanaethau er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar gyflogwyr
- Rhoi'r gorau i gyflwyno hyfforddiant yn uniongyrchol drwy'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol a rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau, megis gweinyddu'r cynlluniau cardiau
- Llunio adroddiadau cynhwysfawr ar gyfer llunwyr polisi, cyflogwyr a sefydliadau. Ymhlith y gwaith i ddod mae adroddiadau ar: weithwyr mudol, sgiliau digidol a diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Bydd pethau'n cyflymu o ran ein hagenda ddiwygio yn ystod gwanwyn 2018. Ym mis Ebrill gwnaethom gyflwyno ein Model Hyfforddiant a Chynllun Grantiau newydd.

Bydd y Model Hyfforddiant yn galluogi cyflogwyr i gael yr hyfforddiant iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Bydd yn galluogi gweithwyr i hyfforddi a chadw eu cofnod cymwysterau i'w rannu â chyflogwyr eraill yn y dyfodol.

Hefyd, dechreuodd Cynllun Grantiau CITB ym mis Ebrill. Bydd y Cynllun Grantiau yn galluogi cwmnïau i gael taliadau grant yn awtomataidd. Bydd hyn yn dileu biwrocratiaeth ac yn sicrhau bod grantiau hyfforddi y mae eu hangen yn fawr yn cyrraedd cwmnïau bach a micro-gwmnïau yn arbennig.

Fel y dangosodd ein ffigurau ymchwil diweddar, mae'r pum mlynedd nesaf yn argoeli'n dda iawn i'r sector adeiladu yn y DU.

Er mwyn gwireddu potensial y diwydiant adeiladu o ran sgiliau a chyflogaeth, bydd CITB syml a diwygiedig yn cydweithio â'r diwydiant a Llywodraethau ledled y DU ar amrywiaeth o heriau gan gynnwys:

- Gwneud i gyllid weithio'n well, yn enwedig i gwmnïau bach
- Sicrhau bod y sector adeiladu yn recriwtio ac yn cadw gweithwyr
- Gwella cynhyrchiant a Chynaliadwyedd
- Mabwysiadu Technolegau digidol a gweithgynhyrchu
- Hyrwyddo gyrfaoedd adeiladu ac Amrywiaeth
- Cydweithredu er mwyn datblygu'r safonau Arloesi a chymwysterau Safon T
- Helpu adeiladwyr tai i gyflawni uchelgais y llywodraeth, sef adeiladu 300,000 o dai bob blwyddyn erbyn canol yr 2020au
- Helpu'r diwydiant i ateb yr her sgiliau a gyflwynir gan Brexit.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn amlinellu sut y gwnawn weithio gyda'r diwydiant er mwyn ateb yr heriau hyn.

Gobeithio y gwnewch fwynhau darllen am ein cynlluniau ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ar gyflawni'r diwygiadau newydd uchelgeisiol hyn.

**Gweledigaeth 2020: CITB y Dyfodol** – ein hagenda ar gyfer newid. **Bydd CITB yn:**

**Ymatebol:** Drwy ddiwygio ein Cynllun Grantiau, gwneud taliadau'n haws ac yn fwy hygyrch, a defnyddio ein hadnoddau i gefnogi marchnad hyfforddi a datblygu gynaliadwy, ymatebol o ansawdd uchel.

**Arloesol:** Drwy weithio'n agos gyda'r diwydiant er mwyn datblygu ffyrdd newydd a gwell o ddiwallu ei anghenion.

**Dylanwadol**: Drwy feithrin partneriaethau dynamig a diddorol sy'n helpu'r diwydiant i ddenu, hyfforddi a chadw ei weithlu yn y dyfodol.

**Atebol:** Drwy ymgyrchoedd cenedlaethol, gwaith cynllunio strategol tryloyw a ffocws newydd ar ganlyniadau.

**Cynrychioliadol:** Drwy bartneriaethau cryf, trefniadau llywodraethu diwygiedig ac atebolrwydd gwell.

**Perthnasol:** Drwy foderneiddio, newid y ffordd rydym yn gwneud busnes a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar y diwydiant. Bydd CITB yn adeiladu sail dystiolaeth, creu fframwaith safonau o ansawdd uchel, eirioli, ymgysylltu a dylanwadu er mwyn sicrhau y caiff hyfforddiant ei ddarparu.

# Map Gweledigaeth 2020

## Cerrig milltir dynodol ar gyfer ein rhaglen Drawsnewid

### 2017

**TACHWEDD 2017**
Cyhoeddi cynlluniau Gweledigaeth 2020

**TACHWEDD 2017**
Model Hyfforddi Newydd - Dechrau sefydlu Sefydliadau Hyfforddi Cymeradwy

**TACHWEDD 2017**
Cyflwyno hysbysiad CSCS

### 2018

**IONAWR 2018**
Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu yn fyw ar gyfer Sefydliadau Hyfforddi Cymeradwy

**MAWRTH 2018**
Ymgysylltu â'r Farchnad - Gwerthu CPCS

**MAWRTH 2018**
Cynnig ar gyfer y Brif Swyddfa Newydd - Cychwyn Ymgynghoriad ar y Cyd

**EBRILL 2018**
Ymgysylltu â'r Farchnad - Gwasanaethau Contractau Allanol

**EBRILL 2018**
Cynllun Grantiau newydd 2018/19 yn fyw

**EBRILL 2018**
Sefydlu Grŵp Arloesi Strategol

**EBRILL 2018**
Cofrestr Hyfforddiant Adeiladu yn fyw

**EBRILL 2018**
Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu yn fyw

**MAI 2018**
Strwythurau llywodraethu ar gyfer Cynghorau newydd y Gwledydd ar waith yn llawn

**EBRILL 2018**
Cymorth pontio hawlio grant ar gael, am gyfnod disgwyliedig o 6 mis

**MAI 2018**
Cychwyn Adolygiad Cam 2 o'r Model Hyfforddi - Cymwysterau ac awtomeiddio pellach

**MEHEFIN 2018**
Ymgysylltu â'r Farchnad - Gwerthu Gwasanaethau Hyfforddi

**HYDREF 2018**
Cwblhau'r gwerthiant - CPCS

**TACHWEDD 2018**
Cychwyn trafodaethau TUPE ac Ymgynghoriad ar y Cyd

**TACHWEDD 2018**
Cytuno ar gontract allanol

**RHAGFYR 2018**
Model Hyfforddi - Pob safon hyfforddi sy'n gymwys am grant 2018/19 wedi'i chwblhau

### 2019

**IONAWR 2019**
Partneriaeth allanol newydd ar waith

**MAWRTH 2019**
Swyddfa newydd yr Alban a gydleolir yn agor

**MAWRTH 2019**
Swyddfa newydd Cymru a gydleolir yn agor


### 2020

**IONAWR 2020**
Prif Swyddfa newydd yn agor

**MAWRTH 2020**
Gwasanaethau Hyfforddi - Gorffen y broses o drosglwyddo i berchenogaeth newydd

**RHAGFYR 2020**
Swyddfa newydd Llundain a gydleolir yn agor

# Mae gan CITB lawer o waith da i adeiladu arno.



**Yn yr Alban** tyfodd y rhaglen Prentisiaeth Fodern yn sylweddol yn 2017, a chyflawnodd CITB **1,925 o Brentisiaethau Modern** - am y chweched flwyddyn yn olynol.

**Yng Nghymru** gwnaeth **Estyn**, yr arolygiaeth addysg, ganmol ein gwaith gan ddyfarnu dulliau **arwain** a **rheoli Prentisiaethau CITB** yn "**ardderchog**".

Yn y cyfamser, ym mis Tachwedd 2017, cafodd CITB ei **ddyfarnu'n ddarparwr prentisiaethau 'rhagorol'** gan Ofsted **yn Lloegr** am yr ail arolygiad yn olynol.

## **Tair prif flaenoriaeth** CITB o hyd yw:

- GYRFAOEDD
- SAFONAU A CHYMWYSTERAU
- HYFFORDDI A DATBLYGU

GWNAWN GEFNOGI'R BLAENORIAETHAU HYN DRWY:

**Tystiolaeth:** Atgyfnerthu ein sail dystiolaeth er mwyn pennu anghenion sgiliau a hyfforddiant y diwydiant.

**Dylanwad:** Gweithio gyda'r diwydiant er mwyn dylanwadu ar gyllid sgiliau, hyfforddiant, polisïau'r llywodraeth a darpariaethau.

**Cyllid:** Defnyddio arian cyflogwyr er mwyn eu cefnogi gyda'u hanghenion sgiliau.

# Gyrfaoedd

Blaenoriaeth Strategol

**Ein nod** yw galluogi'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig i gyflwyno ei hun i ddarpar gyflogeion fel diwydiant dynamig a chynhwysol sy'n cynnig cyfleoedd ac yn gwobrwyo gyrfaoedd.

**Ein huchelgais** yw i gyflogwyr ddweud bod cronfa dalent sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion recriwtio'r diwydiant.

## Dull gweithredu

- Sicrhau bod y wybodaeth a'r arweiniad gyrfaoedd cywir ar gael drwy'r sianeli cywir (digidol, llysgenhadon, rhwng cymheiriaid, ymgyrchoedd) i ddarpar gyflogeion a'r rhai sy'n eu llywio.
- Darparu ateb sy'n paru pobl â chyfleoedd profiad gwaith fel rhan o hyfforddiant/cymhwyster ffurfiol, neu cyn hynny, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o gael profiadau gwael wrth ymuno â'r sector a hefyd er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiad cyflogwyr nad yw newydd-ddyfodiaid yn 'barod i weithio'.
- Ymdrin â'r diffyg cyfleoedd datblygu/adleoli er mwyn cadw pobl yn y sector ar ôl iddynt ymuno.
- Dylanwadu ar ddull caffael awdurdodau lleol er mwyn gwneud y gorau o brosesau recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu.

## Ymhlith yr uchafbwyntiau i'w cyflawni mae

**2018 -** Lansio pecynnau cymorth newydd er mwyn helpu cyflogwyr a llysgenhadon

**2019 -** Dod â mentrau gyrfaoedd y diwydiant at ei gilydd o dan un ymgyrch ymddygiadol gynhwysfawr, gan ddefnyddio brand Am Adeiladu

**2019 -** Cyflwyno mini-safleoedd Am Adeiladu personol bach ar gyfer cynulleidfaoedd a dargedir

**2020 -** Adeiladu Sgiliau yn cynnwys sgiliau newydd yn y gystadleuaeth gan adlewyrchu dulliau adeiladu modern

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Targed 2020/2021
**57%** Adnabyddiaeth **68%** Apêl

Adnabyddiaeth ac apêl gyrfaoedd adeiladu (pobl ifanc, dylanwadwyr, addysgwyr)

**Llinell sylfaen 2018: Ad 53% Ap 66%**

Targed 2020/2021
**40%**

Mae cyflogwyr yn dweud bod cronfa dalent sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion recriwtio'r diwydiant

**Llinell sylfaen 2018: 30%**

Targed 2020/2021
**25,000**

Mwy o brentisiaethau adeiladu/amgylchedd adeiledig (cytundeb y sector)

**Llinell sylfaen 2018: 17,500**

Targed 2020/2021
**4,300**

Cynnydd yn amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer Prentisiaethau CITB

**Llinell sylfaen 2018: 3,800**

# Safonau a Chymwysterau

Blaenoriaeth Strategol

## Ymhlith yr uchafbwyntiau i'w cyflawni mae

**Diwedd 2018 -** Bydd CITB yn cydlynu gwaith ar ddatblygu 50 o safonau prentisiaeth Arloesi newydd mewn partneriaeth â'r Sefydliad Prentisiaethau

**2018 -** Bydd CITB yn lansio rhaglen o fideos dysgu cyd-destunol ar y safle er mwyn helpu prentisiaid a chyflogeion eraill i feithrin sgiliau Mathemateg a Saesneg

**2018 -** Dechrau cynorthwyo cyflogwyr i ymrwymo i leoliadau gwaith ar gyfer cymwysterau Safon T

**2020 -** Bydd yr holl Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y mae CITB yn gyfrifol amdanynt wedi'u hadolygu yn y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys asesiad effaith ar gyfer y sector adeiladu gan ddefnyddio cydosodiadau a weithgynhyrchir oddi ar y safle

**2020 -** Bydd 1200 o safonau hyfforddi sydd wedi'u cymeradwyo gan gyflogwyr ar gael drwy'r Cyfeiriadur Hyfforddiant

**Ein nod** yw sicrhau bod gan y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig safonau hyfforddi ac asesu cyson a sicr o ansawdd uchel.

**Ein huchelgais** yw i gyflogwyr gredu bod cynnwys hyfforddiant ac asesiadau, a'r dull o'u cynnal, yn adlewyrchu anghenion y diwydiant.

## Dull gweithredu

- Bydd CITB yn gweithio gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn cael cyflogeion sy'n barod i weithio drwy safonau a chymwysterau cywir.
- CITB fydd yn cynnal safonau'r diwydiant, gan ddefnyddio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, lle bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod modd cymharu safonau. Bydd hyn yn galluogi trosglwyddo sgiliau'n ddaearyddol a rhwng sectorau, yn ogystal â chyflymu cynhyrchiant unigolion.
- Bydd CITB yn gweithio gyda'r diwydiant er mwyn nodi a gosod safonau a chymwysterau a wnaiff ddiwallu anghenion nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys arwain y Gweithgor Prentisiaethau a darparu tystiolaeth o anghenion prentisiaethau adeiladu yn y dyfodol, y rhwystrau i'w diwallu a nodi'r camau gweithredu penodol.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Targed 2020/2021
**+5% pwynt**

CITB yn cael ei ystyried yn gredadwy, gydag enw da, gan ychwanegu gwerth at y diwydiant

**Llinell sylfaen i'w phennu**

Targed 2020/2021
**70%** Diwydiant **46%** Cwmni

Pwysigrwydd y system Grantiau Lefi wrth gynnal lefel ac ansawdd hyfforddiant i'r diwydiant a fy nghwmni

**Llinell sylfaen 2018: Diw - 65% 44% Cwmni%**

Targed 2020/2021
**+10% pwynt**
v 2018/2019

Mae CITB yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy sy'n datblygu ein henw da fel sefydliad a arweinir gan ddealltwriaeth o'r sector

**Llinell sylfaen i'w phennu**

# Hyfforddi a Datblygu

Blaenoriaeth Strategol

**Ein nod** yw sicrhau bod cyflogwyr yn gallu cael hyfforddiant cynaliadwy, o ansawdd uchel sydd ei angen arnynt er mwyn hyfforddi eu gweithlu mewn sgiliau cyfredol a newydd.

**Ein huchelgais** yw i gyflogwyr gael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt mewn modd amserol.

## Approach

- Sicrhau bod hyfforddiant yn fodern, o ansawdd uchel, yn hygyrch ac ar amryw ffurf sy'n ystyried technolegau sy'n dod i'r amlwg fel dysgu drwy drochi.
- Diwallu anghenion sgiliau penodol yn gyflym, drwy gynyddu argaeledd cyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n uwchsgilio, gweladwyedd cymhwysedd a chyflawniad, a darparu hyfforddiant er mwyn sicrhau bod hyfforddwyr ac aseswyr yn gymwysedig.
- Lleihau'r amser mae'n ei gymryd i unigolion ychwanegu gwerth yn y gweithle ar ôl ymuno â'r sector, ennill cymhwyster neu hyfforddi/datblygu mewn meysydd gwaith newydd.
- Sicrhau bod hyfforddiant ar gael a'i fod yn hygyrch er mwyn cefnogi crefftau a galwedigaethau arbenigol.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Targed 2020/2021
**55%**
Mae cyflogwyr yn dweud y gallant gael gafael ar yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt mewn modd amserol
**Llinell sylfaen 2018: 40%**

Targed 2020/2021
**+10% pwynt**
Mae cyflogwyr yn credu bod cynnwys hyfforddiant ac asesiadau, a'r dull o'u cynnal, yn adlewyrchu anghenion y diwydiant (gwaith monitro yn unig)
**Llinell sylfaen i'w phennu**

Targed 2020/2021
**80%**
Cyllid a gomisiynwyd wedi'i dargedu: % cyllid hyblyg a strwythuredig
**Llinell sylfaen i'w phennu**

## Ymhlith yr uchafbwyntiau i'w cyflawni mae

**Ebrill 2018 -** Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu yn fyw - lle gall cyflogwyr ddod o hyd i'r hyfforddiant iawn, yn y man iawn, ar yr adeg iawn a gefnogir gan Grant

**Ebrill 2018 -** Cofrestr Adeiladu yn fyw - er mwyn dechrau creu cronfa ddata amhrisiadwy o hyfforddiant ym mhob rhan o'r diwydiant

**2019 -** Rhaglen ailddatblygu yn gyflawn ar gyfer y prawf iechyd, diogelwch a'r amgylchedd gyda mathau newydd o gwestiynau a deunyddiau adolygu

**2019 -** Lansio rhifynnau digidol newydd a fideos byr cefnogol ar gyfer cyhoeddiadau craidd Site Safety Plus, astudiaethau achos a nodiadau cwrs

# Cyllid

Blaenoriaeth Alluogi

Defnyddio cyllid i **annog cyflogwyr** i hyfforddi er mwyn diwallu eu hanghenion o ran **sgiliau nawr** ac **yn y dyfodol.**

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Targed 2020/2021

**70%** Diwydiant **46%** Cwmni

Pwysigrwydd y system Grantiau Lefi wrth gynnal lefel ac ansawdd hyfforddiant i'r diwydiant a fy nghwmni

**Llinell sylfaen 2018: Diw - 65% 44% Cwmni%**

Targed 2020/2021

**80%**

Cyllid a gomisiynwyd wedi'i dargedu: % cyllid hyblyg a strwythuredig

**Llinell sylfaen i'w phennu**

## Cymorth Grant

**O 1 Ebrill 2018, bydd y Cynllun Grantiau yn cefnogi tri maes yn bennaf:**

PRENTISIAETHAU

CYMWYSTERAU

HYFFORDDIANT BYR

Cefnogir hyn gan lansio Model Hyfforddi CITB a chyflwyno taliadau Grant awtomataidd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chyflawniadau ar gyfer gweithgarwch adeiladu.

Mae ein hegwyddorion o ran y Cynllun Grantiau yn parhau, sef:

- Annog hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â'r diwydiant adeiladu, a gorchymyn cwmpas CITB
- Cysoni cyllid â blaenoriaethau a safonau
- Cynorthwyo pob cyflogwr sydd wedi cofrestru ar gyfer y Lefi a'i weithlu o isgontractwyr
- Defnyddio cyllid sydd wedi'i dargedu i gefnogi blaenoriaethau'r diwydiant
- Blaenoriaethu buddsoddiad mewn meysydd lle mae ymrwymiad hirdymor
- Defnyddio ein hymchwil i ganolbwyntio cyllid ar ddatblygu anghenion sgiliau newydd.

## Cymorth ariannol

Bob blwyddyn, caiff y Lefi a gesglir gan CITB oddi wrth gyflogwyr adeiladu ei ailfuddsoddi yn y diwydiant. Ein nod yw sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cadw i fyny â gofynion hyfforddiant a sgiliau diwydiant sy'n newid yn gyflym.

Yn 2015, gwnaeth CITB resymoli ei gymorth ariannol yn dair prif gronfa

- **Hyblyg** – Diwallu anghenion a nodwyd gan y Diwydiant neu Gyflogwyr
- **Strwythuredig** – Ymateb i anghenion a nodwyd gan ein hymchwil
- **Sgiliau a Hyfforddiant** - I gwmnïau â llai na 100 o gyflogeion sydd wedi nodi angen sgiliau neu hyfforddiant.

Dangosodd ein hadroddiad diweddaraf ar effaith cyllid, rhwng mis Medi 2015 a mis Rhagfyr 2016, fod bron £18m o gyllid Hyblyg a Strwythuredig CITB wedi'i wario ar dros 300 o brosiectau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd CITB yn parhau i adolygu ei holl gronfeydd, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion ar sail tair thema strategol Arloesedd, Gyrfaoedd a Hyfforddi a Datblygu.

Byddwn yn parhau i danlinellu anghenion y diwydiant ar sail ein tystiolaeth ac yn comisiynu ymgeiswyr a all ddiwallu'r anghenion a amlinellir gennym.

Ymhlith y gwaith comisiynu cyllid strwythuredig sydd yn yr arfaeth mae:

- Oddi ar y safle
- Cyn cyflogi
- BIM (Modelu Gwybodaeth am Adeiladu)
- Dysgu drwy drochi.

# Y Sail Dystiolaeth

Blaenoriaeth Alluogi

Mae CITB yn llunio amrywiaeth o adroddiadau helaeth ar gyfer llunwyr polisi, cyflogwyr a sefydliadau adeiladu.

Mae'r adroddiadau hyn yn helpu'r diwydiant i gynllunio ar raddfa genedlaethol a rhanbarthol, ac maent yn darparu argymhellion ar sut y gall y sector gadw i fyny â newidiadau a gwella bywydau gwaith y sawl sy'n gweithio yn y sector adeiladu yn barod, a'r rhai a wnaiff ymuno ag ef.

Mae'r adroddiadau hefyd yn nodi meysydd y gall y sector wella ynddynt drwy gyllid a/neu gydweithredu â llunwyr polisi.

Adroddiadau ymchwil arfaethedig ar gyfer 2018:

- Gweithwyr mudol – diweddaru ein gwaith arweiniol ar eu rôl ym maes adeiladu
- Trosglwyddo sgiliau - o fewn y sector adeiladu ac o sectorau eraill
- Diweithdra ymhlith pobl ifanc - deall y potensial fel newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant
- Bywydau Gwaith Llawnach – strategaethau i gadw gweithwyr hŷn yn y diwydiant adeiladu
- Sgiliau Digidol ym maes adeiladu – cyfraniad posibl a sut i'w wireddu
- Sgiliau lleol - asesu'r galw a chyflenwad lleol ar gyfer galwedigaethau allweddol a strategaethau i fynd i'r afael â bylchau.

Dangosydd Perfformiad Allweddol

Targed 2020/2021

**+10% pwynt**

v 2018/2019

Mae CITB yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy sy'n datblygu ein henw da fel sefydliad a arweinir gan ddealltwriaeth o'r sector

**Llinell sylfaen i'w phennu**

**Cwblhau gwaith ymchwil** er mwyn deall yr hyn y mae angen i **gyflogwyr, y llywodraeth, darparwyr** a **CITB** ei wneud i ddarparu'r hyfforddiant sgiliau sydd ei angen, ac annog partneriaethau i sicrhau bod hynny'n digwydd.

# Dylanwadu ac Ymgysylltu

Blaenoriaeth Alluogi

Bydd CITB yn parhau i ymgysylltu a chydweithredu â'r diwydiant, er mwyn deall heriau a dylanwadu ar gymorth.

**Bydd CITB yn:**

- **Sicrhau bod blaenoriaethau o ran sgiliau adeiladu** yn cael eu cydnabod gan y Llywodraeth yn y tair gwlad
- **Sicrhau bod darpariaeth yn bodloni'r galw** drwy Bartneriaethau Menter Lleol, dinas-ranbarthau a llywodraethau datganoledig
- **Datblygu atebion partneriaeth** er mwyn cefnogi blaenoriaethau o ran sgiliau, fel DWP
- **Cefnogi trefniadau llywodraethu newydd** gan wella cynrychiolaeth y diwydiant ar bwyllgorau CITB
- **Diwygio cydberthnasau** â grwpiau allanol, Fforymau Cyflogwyr a Ffederasiynau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ac ymgysylltu.

Dangosydd Perfformiad Allweddol

Targed 2020/2021

**+5% pwynt**

CITB yn cael ei ystyried yn gredadwy, gydag enw da, gan ychwanegu gwerth at y diwydiant

**Dim llinell sylfaen ar hyn o bryd**

## Ymgyrchu a dylanwadu

Bydd y pwyslais ar ddarbwyllo eraill i ddatrys problemau er budd y diwydiant yn arwain at gynyddu ein gweithgarwch ymgyrchu a dylanwadu.

I gefnogi hyn, rydym wedi cynyddu'r gwariant a gynllunnir ar farchnata 50% er mwyn gallu ymyrryd er budd canlyniadau'r diwydiant.

Bydd hyn yn cynnwys ymgyrch gyrfaoedd ymddygiadol er mwyn gwella delwedd y Diwydiant a chynyddu nifer y bobl sy'n ymuno â'r diwydiant adeiladu, ac Ymgyrch Hyfforddi er mwyn annog unigolion a chyflogwyr i fuddsoddi mewn dysgu gydol oes, gan gefnogi nodau cynhyrchiant cynyddol.

## Partneriaethau Strategol

Bydd Tîm Partneriaethau Strategol CITB yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi'r amcanion hyn. Rôl y tîm fydd ymgysylltu â phartneriaid CITB er mwyn cyflawni'r ymyriadau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion hyfforddi'r diwydiant a nodwyd.

**Mae'r Tîm Partneriaethau yn cyflawni tair swyddogaeth allweddol:** gwrando, dehongli (ychwanegu lliw at y sail dystiolaeth) a gweithredu er mwyn sicrhau mai partneriaethau ac eraill yw'r prif ymyriad.

Y Tîm Partneriaethau fydd arweinydd cydberthnasau "Tîm CITB", gan ddilyn trywydd sy'n ymwneud yn fwy â rheoli cyfrifon er mwyn sicrhau bod neges gyson yn cael ei chyfleu a bod arbenigwyr pwnc CITB yn cael eu cynnwys.

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol


Cafodd y targedau allweddol a amlinellir yn y Cynllun Busnes hwn eu gosod yn dilyn adborth gan dalwyr y lefi, y diwydiant a'r Llywodraeth.

| **DPAau y Bwrdd a Thargedau / Monitro** | **Llinell sylfaen** | **Targed 2018/19** | **Targed 2019/20** | **Targed 2020/21** |
|---|---|---|---|---|
| CITB yn cael ei ystyried yn gredadwy ac ag enw da gan ychwanegu gwerth at y Diwydiant | | Pennu llinell sylfaen | +2% pwynt v llinell sylfaen | +3% pwynt v 2019/20 |
| **Adnabyddiaeth** ac **Apêl** gyrfaoedd adeiladu (pobl ifanc, dylanwadwyr, addysgwyr) | 53%<br>66% | 53%<br>66% | 55%<br>67% | 57%<br>68% |
| Mae cyflogwyr yn dweud bod cronfa dalent sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion recriwtio'r diwydiant | 30% | 33% | 36% | 40% |
| Mae cyflogwyr yn dweud y gallant gael gafael ar yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt mewn modd amserol | 40% | 45% | 50% | 55% |
| Mwy o brentisiaethau adeiladu/amgylchedd adeiledig | 17,500 | 19,000 | 22,000 | 25,000 |
| Mae cyflogwyr yn credu bod cynnwys hyfforddiant ac asesiadau, a'r dull o'u cynnal, yn adlewyrchu anghenion y diwydiant (gwaith monitro yn unig) | | Pennu llinell sylfaen | +3% pwynt v llinell sylfaen | +5% pwynt v llinell sylfaen |
| Cynnydd yn amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer Prentisiaethau CITB | 3,800 | 3,900 | 4,100 | 4,300 |
| Cyllid a gomisiynwyd wedi'i dargedu: % cyllid Hyblyg a Strwythuredig | Dd/G | 30% | 50% | 80% |
| Pwysigrwydd y system Grantiau Lefi wrth gynnal lefel ac ansawdd hyfforddiant i'r **Diwydiant** a **Fy Nghwmni** | 65%<br>44% | 60%<br>40% | 65%<br>43% | 70%<br>46% |
| Mae CITB yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy sy'n datblygu ein henw da fel sefydliad a arweinir gan ddealltwriaeth o'r sector | | Pennu llinell sylfaen | +5% pwynt v llinell sylfaen | +5% pwynt v 2019/20 |

Gallwch fonitro hynt ein Cynllun Busnes bob chwarter drwy ymweld â:
**citb.co.uk/businessplan**.


# Cyllidebau

## Buddsoddi yn sgiliau'r diwydiant



# Cynllun Adnoddau

## Trosolwg Ariannol




## POBL

**CALl ar ddiwedd y flwyddyn**




| CYFANSWM | 917 | 569 | 558 |
|---|---|---|---|

*Cofnodwyd ym mis Mawrth 2018 (heb ei archwilio).

Cymru Wales

Cofrestrir CITB yn elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestredig 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestredig SC044875).